Children in Wales
Plant yng Nghymru

CHAPPIE NETWORK INFORMATION BULLETIN
BWLETIN GWYBODAETH RHWYDWAITH CHAPPIE

Yn y Rhifyn Yma / In This Issue

CHAPPIE event

News

Child product safety guide

Road safety

Poisoning and burns

Accident prevention

Digwyddiad CHAPPIE

Newyddion

Canllaw diogelwch ar gynnyrch i blant

Diogelwch ffyrdd

Gwenwyno a llosgiadau

Atal Damweiniau

Cysylltiadau / Links

CHAPPIE Network Webpage

December 2013/Rhagfyr 2013

Cliciwch yma ar gyfer y fersiwn Gymraeg.

This is the latest edition of the Child Accident Prevention Practice and Information Exchange Network Information Bulletin prepared by Children in Wales. It contains the latest news, research and reports from the field of Child Accident Prevention.

If you do not wish to recieve this occasional e-briefing, please let us know by emailing info@childreninwales.org.uk.

If you feel your colleagues would benefit from this information, please forward.

CHAPPIE event

Herding Cats !! - Evaluating Accident Prevention Without Data

Friday 24th January 2014; 10am - 12.30pm
Gwersyllt Community Resource Centre, Second Avenue
Gwersyllt, **Wrexham** LL11 4ED

With limited or little local injury data, many of our CHAPPIE members feel that they have an impossible task and are asking the question, *"How can we show the effectiveness of our accident prevention activities, how can we evaluate it?"*

This free workshop aims to help CHAPPIE members *'herd cats'* and understand how they can evaluate their accident prevention interventions through Results Based Accountability (RBA).

Using the RBA model and real case study examples, the workshop will demonstrate how to measure effectiveness and results as well as providing CHAPPIE members with practical information and advice.

Speakers & Facilitators
Karen McFarlane, Child Safety Development Officer, Children in Wales
Andy Senior, Training Officer, Children in Wales

To reserve a place on this FREE workshop, please contact bookings@childreninwales.org.uk

Places are limited, so please book early. Please ensure that you are able to attend before booking a place. Bookings will close on 15th January 2014

We would like to thank Wrexham Flying Start for kindly hosting this event and therefore ensuring free places for our CHAPPIE members.

News

Tougher sentences for dog attacks in England and Wales
Penalties for owners of dogs that injure or kill people are to increase. New laws will be introduced in England and Wales raising the maximum jail sentence for the owner of a dog that kills someone from two to 14 years.

Scalded child parents sent to hospital 170 miles away
The parents of a scalded toddler said they were shocked hospital staff sent them to a specialist burns unit more than 170 miles (274km) away without being offered an ambulance. Corey Duffield was taken to the Royal Cornwall Hospital in Truro following an accident at home in Newquay.

Child dies after falling from second story window
A child has died after falling from a window in Oneida County. The Sheriff's office says a four-year-old fell from a second story window onto a driveway on Peterboro Street in Vernon Wednesday. The child was taken to a Syracuse hospital and later died.

NGOs seek curbs on sale of nicotine gum to children
Nicotine gum was introduced to the market to help smokers stay away from smoking. But it looks like it will have counterproductive effects as children have easy access to it through grocery shops and supermarkets.

Toddler scalded by coffee is airlifted from park
A toddler from Hinckley was airlifted to hospital after being scalded by a mug of hot coffee. The 16-month-old boy was taken in a Derbyshire, Leicestershire and Rutland Air Ambulance to Birmingham Children's Hospital after suffering burns at a house near Richmond Park in Hinckley.

Mum hopes others learn from child's death
A mother cleared of manslaughter after her 13-month-old son died when she left him alone in a bath hopes other mums will learn from the tragedy. The 29-year-old mother, who can't be named for legal reasons, has been on trial in the High Court in Wellington after her son died in November last year, four days after he was found lifeless in the bath.

Toddler strangled in accident with window blind cord
A toddler died after accidentally becoming entangled in a window blind cord, an inquest has heard. Sophia Parslow's mother had only left her in the lounge watching her favourite TV programme for a few minutes while she went upstairs.

Child product safety guide

The European Child Safety Alliance, along with partners and sponsers has produced a new guide to products designed for children and their carers that may be potentially dangerous.

Tens of thousands of children across Europe are injured each year using everyday products such as bunk beds, trampolines and toys that are unsafe.

The aim of the guide is to increase awareness of which products in common use pose a risk, and avoid unneccessary injury amongst

children.

Children in Wales sit on the European Child Safety Alliance Steering Group. If you would like more information about our European work, please contact karen.mcfarlane@childreninwales.org.uk.

Child Product Safety Guide: Potentially dangerous products is available from the European Child Safety Alliance website, www.childsafetyeurope.org.

Road safety

WHO launches manual aimed at strengthening road safety legislation in support of the Decade of Action for Road Safety 2011-2020

Comprehensive road safety legislation-which incorporates evidence-based measures and strict and appropriate penalties, backed by consistent, sustained enforcement and public education-has been proven to reduce road traffic injuries and fatalities. Released today by WHO, *Strengthening road safety legislation: a practice resource manual for countries* describes methods and provides resources that practitioners and decision-makers can use for enacting new laws or amending existing ones as part of a comprehensive road safety strategy.

Are parents following the recommendations for keeping children younger than 2 years rear facing during motor vehicle travel?

Between 2007 and 2012 there have been several recommendations that infants and toddlers ride in a car safety seat rear facing until 3 years of age. This study reports the effect of these recommendations on the observed direction of travel for infants and toddlers transported in motor vehicles between 2007 and 2012.

The severity of pedestrian crashes: An analysis using Google Street View imagery

Data derived from visual inspection of Google Street View imagery associated with a variety of pedestrian and road infrastructure features are analyzed with a database of pedestrian casualties. These features include the presence of sidewalks, buffers between the road and the sidewalk, street lighting, number of travel lanes and the presence of medians, traffic controls at intersections, and posted speed limits. The analysis focuses on how these features affect the severity of a pedestrian casualty once it has occurred.

Novice drivers: Evidence review and Evaluation - Pre-driver training, Graduated Driver Licensing

The over-representation of young novice drivers in road collisions is a public health risk in Great Britain (GB), and worldwide. The key contributory factors to this problem are known and are cross-cultural; they are youth and inexperience. This report reviewed and synthesised evidence of effectiveness for three approaches to tackling young and novice driver safety, for consideration in GB.

Effects of bicycle helmet laws on children's injuries

In recent years, many states and localities in the USA have enacted bicycle helmet laws. Using hospital data, this study estimated the effects of these laws on injuries requiring emergency department treatment.

Poisoning and burns

Carbon monoxide poisoning in patients presenting to the emergency department with a headache in winter months
Carbon monoxide (CO) poisoning is an important reason for emergency department (ED) visits during winter months, but because there are no specific symptoms it can be difficult to diagnose. The aim of this research was to determine the frequency of CO poisoning in patients presenting to the ED with headaches during winter months and evaluate the ability of non-invasive carboxyhaemoglobin measurement (SpCO) to screen for CO poisoning in these patients.

155 burns caused by hair straighteners in children: A single centre's experience over 5 years
Hair straighteners have become a popular and common household appliance. The incidence of burns from these devices is rising, and is of particular concern given that the main casualties are infants. This paper presents the largest case series in the literature of paediatric burns from hair straightening devices.

Rare-Earth magnet ingestion-related injuries among children, 2000-2012
This study describes the epidemiology of rare-earth magnet ingestion by children by retrospectively analyzing 72 cases of magnet ingestion collected from Saferproducts.gov and the US Consumer Product Safety Commission from 2000 through 2012.

Accident prevention

Annual Report of the Chief Medical Officer 2012. Our Children Deserve Better: Prevention Pays
Every year the CMO for England produces an Annual Report. This year Volume 2 focuses on children and young people. The report is based on the evidence of experts, who provided information about the life course stages. The report makes recommendations on how to improve the health of children and young people and why this is important to do. The report contains information on injury prevention.

Injury Prevention: Opportunities in the Emergency Department
Because injury is the leading cause of morbidity and mortality in young patients, emergency departments have a significant opportunity to provide injury-prevention interventions at a teachable moment. With a thoughtful, collaborative approach, emergency departments are an excellent setting within which to promote injury prevention among patients and families.

Preventing child unintentional injury deaths: Prioritising the response to the New Zealand Child and Adolescent Injury Report Card
This study developed recommendations for child unintentional injury prevention by comparing New Zealand's child unintentional injury mortality and injury prevention policies with those of European countries.

Child mortality in the Netherlands in the past decades: An

overview of external causes and the role of public health policy
Among European countries, the Netherlands has the second lowest child mortality rate from external causes. This paper presents an overview, discusses possible explanations, and suggests prevention measures.

Risk of fatal unintentional injuries in children by migration status: A nationwide cohort study with 46 years' follow-up
The aim of this research was to study the effect of parental birth country on the risk of fatal unintentional injuries. A significantly higher risk of fatal unintentional injuries was found among children with a foreign background than among native children.

Food choking hazards in children
This paper reviews the literature on pediatric food choking risks, with the long-term goal of supporting legislation regulating the production, labeling, and distribution of high-risk foods.

Economic evaluation of smoke alarm distribution methods in Baltimore, Maryland
This paper analyses costs and potential lives saved from a door-to-door smoke alarm distribution programme using data from a programme run by the Baltimore City Fire Department in 2010-2011.

Epidemiology of paediatric minor head injury: Comparison of injury characteristics with Indices of Multiple Deprivation
This study looked at the incidence of minor head injuries presenting to the Child Emergency Department of a major teaching hospital in Coventry and Warwickshire. Head injury attendances were compared with population data to identify injury patterns relating to deprivation.

BWLETIN GWYBODAETH RHWYDWAITH CHAPPIE

Hwn yw'r rhifyn diweddaraf o Fwletin Gwybodaeth y Rhwydwaith Cyfnewid Arferion a Gwybodaeth am Atal Damweiniau i Blant (CHAPPIE), a baratowyd gan Plant yng Nghymru. Mae'n cynnwys y newyddion, ymchwil a'r adroddiadau diweddaraf o faes Atal Damweiniau i Blant.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-gyfarwyddiad achlysurol hwn, gadewch inni wybod, os gwelwch yn dda, drwy e-bostio i info@plantyngnghymru.org.uk.

Os ydych yn teimlo y byddai'ch cydweithwyr yn elwa o'r wybodaeth hon, cofiwch ei hanfon ymlaen.

Digwyddiad CHAPPIE

Corlannu Cathod !! - Gwerthuso Atal Damweiniau heb Ddata

Dydd Gwener 24 Ionawr 2014; 10am - 12.30pm
Canolfan Adnoddau Cymunedol Gwersyllt, Second Avenue Gwersyllt, **Wrecsam** LL11 4ED

Yn wyneb data cyfyngedig neu brin ynghylch anafiadau lleol, mae

llawer o'n haelodau CHAPPIE yn teimlo eu bod yn wynebu tasg amhosibl, ac maen nhw'n gofyn y cwestiwn, *"Sut gallwn ni ddangos bod ein gweithgareddau atal damweiniau'n effeithiol, sut gallwn ni werthuso hynny?"*

Nod y gweithdy di-dâl hwn yw helpu aelodau CHAPPIE i *'gorlannu cathod'* a deall sut mae modd gwerthuso eu hymyriadau atal damweiniau trwy Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA).

Gan ddefnyddio'r model RBA ac enghreifftiau o astudiaethau achos go iawn, bydd y gweithdy yn arddangos sut mae mesur effeithiolrwydd a chanlyniadau, yn ogystal â darparu gwybodaeth a chyngor ymarferol i aelodau CHAPPIE.

Siaradwyr a Hwyluswyr
Karen McFarlane, Swyddog Datblygu Diogelwch Plant, Plant yng Nghymru
Andy Senior, Swyddog Hyfforddi, Plant yng Nghymru

I gadw lle ar y gweithdy hwn AM DDIM, cysylltwch â bookings@childreninwales.org.uk

Nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar gael, felly trefnwch yn gynnar. Gofynnir i chi sicrhau eich bod yn gallu bod yn bresennol cyn cadw lle. Bydd y cyfle i gadw lle yn dod i ben ar 15 Ionawr 2014.

Hoffem ddiolch i Dechrau'n Deg Wrecsam am gynnal y digwyddiad hwn, ac yn sgîl hynny am sicrhau llefydd am ddim i aelodau CHAPPIE.

Newyddion

Dedfrydau llymach ar gyfer ymosodiadau gan gwn yng Nghymru a Lloegr
Mae'r gosb i berchnogion cwn sy'n anafu neu'n lladd pobl i gynyddu. Bydd cyfreithiau newydd yn cael eu cyflwyno yng Nghymru a Lloegr, gan godi'r ddedfryd hiraf o garchar ar gyfer perchennog ci sy'n lladd rhywun o ddwy flynedd i 14 blynedd.

Rhieni plentyn a gafodd ei sgaldio yn cael eu hanfon i ysbyty 170 o filltiroedd i ffwrdd
Dywedodd rhieni plentyn bach a gafodd ei sgaldio eu bod yn rhyfeddu at staff ysbyty yn eu hanfon i uned losgiadau arbenigol dros 170 o filltiroedd (274km) i ffwrdd heb gynnig ambiwlans iddyn nhw. Aed â Corey Duffield i Ysbyty'r Royal Cornwall, Truro, ar ôl damwain yn ei gartref yn Newquay.

Plentyn yn marw ar ôl syrthio o ffenestr ar yr ail lawr
Mae plentyn wedi marw ar ôl syrthio o ffenestr yn Swydd Oneida. Yn ôl swyddfa'r Siryf, syrthiodd plentyn pedair oed i lawr i'r rhodfa o ffenestr ar yr ail lawr yn Peterboro Street, Vernon ddydd Mercher. Aed â'r plentyn i ysbyty yn Syracuse a bu farw'n ddiweddarach.

Cyrff Anllywodraethol yn ceisio cyfyngu ar werthu gwm nicotîn i blant
Cyflwynwyd gwm nicotîn i'r farchnad i helpu smygwyr i wrthod y demtasiwn i smygu. Ond mae'n edrych yn debygol y bydd effeithiau negyddol hefyd, gan ei fod yn hawdd i blant gael gafael arno trwy siopau bwyd ac archfarchnadoedd.

Plentyn bach a gafodd ei sgaldio gan goffi yn hedfan i'r ysbyty
Aeth plentyn bach o Hinckley i'r ysbyty yn yr ambiwlans awyr ar ôl cael ei sgaldio gan fwg o goffi poeth. Aed â'r bachgen 16 mis yn Ambiwlans Awyr Derbyshire, Leicestershire & Rutland i Ysbyty Plant Birmingham ar ôl dioddef llosgiadau mewn ty ger Richmond Park yn Hinckley.

Mam yn gobeithio bydd eraill yn dysgu yn sgîl marwolaeth ei phlentyn
Mae mam a gliriwyd o ddynladdiad wedi i'w mab 13 mis farw pan adawodd hi e ar ei ben ei hun mewn bath yn gobeithio y bydd mamau eraill yn dysgu o'r drychineb. Mae'r fam 29 oed, na ellir ei henwi am resymau cyfreithiol, wedi bod ar brawf yn yr Uchel Lys yn Wellington wedi i'w mab farw ym mis Tachwedd y llynedd, bedwar diwrnod ar ôl cael hyd iddo'n ddifywyd yn y bath.

Canllaw diogelwch ar gynnyrch i blant

Mae Cynghrair Diogelwch Plant Ewrop, ynghyd â'u partneriaid a'u noddwyr, wedi cynhyrchu canllaw newydd i gynnyrch a allai fod yn beryglus sydd wedi'u bwriadu ar gyfer plant a'u gofalwyr.

Caiff degau o filoedd o blant ar draws Ewrop eu hanafu bob blwyddyn wrth ddefnyddio cynnyrch pob dydd megis gwelyau bync, trampoliniau a theganau sydd ddim yn ddiogel.

Nod y canllaw yw cynyddu ymwybyddiaeth o ba gynnyrch defnydd cyffredin sy'n achosi risg, ac osgoi anafiadau diangen ymhlith plant.

Mae Plant yng Nghymru yn rhan o Grwp Llywio Cynghrair Diogelwch Plant Ewrop. Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith yn Ewrop, cysylltwch â karen.mcfarlane@childreninwales.org.uk.

Mae Child Product Safety Guide: Potentially dangerous products ar gael o wefan Cynghrair Diogelwch Plant Ewrop, www.childsafetyeurope.org.

Diogelwch ffyrdd

Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn lansio llawlyfr gyda'r nod o gryfhau deddfwriaeth diogelwch ffyrdd i gefnogi'r Degawd o Weithredu dros Ddiogelwch Ffyrdd 2011-2020
Cafwyd prawf bod deddfwriaeth diogelwch ffyrdd gynhwysfawr-sy'n ymgorffori mesurau seiliedig ar dystiolaeth a chosbau llym, priodol, a gynhelir gan orfodaeth gyson ac addysg gyhoeddus-yn lleihau anafiadau a marwolaethau traffig ar y ffyrdd. *Mae Strengthening road safety legislation: a practice resource manual for countries,* a ryddhawyd heddiw gan WHO, yn disgrifio dulliau ac yn darparu adnoddau y gall ymarferwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau eu defnyddio ar gyfer cyhoeddi deddfau newydd neu addasu rhai sydd eisoes yn bodoli fel rhan o strategaeth diogelwch ffyrdd gynhwysfawr.

Ydy rhieni'n dilyn yr argymhellion i gadw plant o dan 2 oed yn wynebu tuag yn ôl wrth deithio mewn cerbydau modur?
Rhwng 2007 a 2012 gwnaed sawl argymhelliad y dylai babanod a phlant bach ddefnyddio sedd car sy'n wynebu tuag yn ôl nes eu bod yn 3 oed. Mae'r astudiaeth hon yn adrodd am effaith yr argymhellion hyn ar y cyfeiriad teithio a welwyd ymhlith babanod a phlant bach oedd yn cael eu cludo mewn cerbydau modur rhwng 2007 a 2012.

Difrifoldeb gwrthdrawiadau gyda cherddwyr: Dadansoddiad gan ddefnyddio delweddau Google Street View
Dadansoddir data sy'n deillio o edrych ar ddelweddau Google Street View sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth o nodweddion isadeiledd ffyrdd a cherddwyr, ochr yn ochr â chronfa ddata o gerddwyr a ddioddefodd anafiadau. Mae'r nodweddion hyn yn cynnwys presenoldeb palmentydd, parthau clustogi rhwng y ffordd a'r palmant, goleuadau stryd, nifer y lonydd teithio a phresenoldeb elfennau yng nghanol yr

heol, mesurau rheoli traffig wrth gyffyrdd, a'r terfynau cyflymdra a nodwyd. Mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar sut mae'r nodweddion hyn yn effeithio ar ddifrifoldeb anaf i gerddwr unwaith y mae wedi digwydd.

Gyrwyr dibrofiad: Adolygu'r dystiolaeth a Gwerthusiad - Hyfforddiant Cyn Gyrru, Trwyddedu Graddedig i Yrwyr
Mae gorgynrychiolaeth gyrwyr ifanc dibrofiad mewn gwrthdrawiadau ar y ffyrdd yn risg i iechyd cyhoeddus ym Mhrydain Fawr, ac ar draws y byd. Mae'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at y broblem hon yn hysbys, ac yn draws-ddiwylliannol; sef ieuenctid a diffyg profiad. Bu'r adroddiad hwn yn adolygu ac yn cysoni tystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd tri dull o ymdrin â diogelwch gyrwyr ifanc, dibrofiad, er mwyn eu hystyried ym Mhrydain Fawr.

Effeithiau cyfreithiau helmedau beicio ar anafiadau plant
Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o daleithiau ac ardaloedd yn UDA wedi cyhoeddi deddfau helmedau beicio. Gan ddefnyddio data o ysbytai, bu'r astudiaeth hon yn amcangyfrif effeithiau'r cyfreithiau hyn ar anafiadau y mae gofyn eu trin mewn adran argyfwng.

Gwenwyno a llosgiadau

Gwenwyno carbon monocsid ymhlith cleifion sy'n dod i'r adran argyfwng yn dioddef o ben tost yn ystod misoedd y gaeaf.
Mae gwenwyno carbon monocsid (CO) yn un o'r rhesymau pwysig am ymweliadau â'r adran argyfwng yn ystod misoedd y gaeaf, ond oherwydd nad oes symptomau penodol, gall fod yn anodd rhoi diagnosis. Nod yr ymchwil hon oedd pennu amlder gwenwyno CO ymhlith cleifion oedd yn dod i'r Adran Argyfwng yn dioddef o ben tost yn ystod misoedd y gaeaf a gwerthuso gallu'r mesuriad carbocsihemoglobin (SpCO) anymwthiol i sgrinio ar gyfer gwenwyno CO ymhlith y cleifion hyn.

155 o blant yn cael eu llosgi gan sythwyr gwallt: Profiad un ganolfan dros 5 mlynedd
Mae sythwyr gwallt wedi dod yn eitem poblogaidd a chyffredin ar aelwydydd. Mae nifer yr achosion o losgiadau yn sgîl y dyfeisiau hyn ar gynnydd, ac mae'n destun pryder arbennig gan mai babanod yn bennaf sy'n cael eu hanafu. Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r gyfres fwyaf o achosion yn llenyddiaeth llosgiadau pediatrig yn sgîl dyfeisiau sythu gwallt.

Anafiadau i blant sy'n gysylltiedig â llyncu magnedau prinfwyn, 2000-2012
Mae'r astudiaeth hon yn disgrifio epidemioleg llyncu magnedau prinfwyn gan blant trwy gynnal dadansoddiad ôl-syllol o 72 achos o lyncu magnedau, a gasglwyd gan Saferproducts.gov a Chomisiwn Diogelwch Cynnyrch Defnyddwyr yr Unol Daleithiau rhwng 2000 a 2012.

Atal damweiniau

Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Meddygol 2012. Our Children Deserve Better: Prevention Pays
Bob blwyddyn mae Prif Swyddog Meddygol Lloegr yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol. Eleni mae Cyfrol 2 yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc. Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar dystiolaeth arbenigwyr, a ddarparodd wybodaeth am gyfnodau cwrs bywyd. Mae'r adroddiad yn cyflwyno argymhellion ynghylch sut mae gwella iechyd plant a phobl

ifanc, a pham mae'n bwysig gwneud hynny. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am atal anafiadau.

Atal Anafiadau: Cyfleoedd yn yr Adran Argyfwng
Oherwydd mai anafiadau yw prif achos morbidrwydd a marwoldeb ymhlith cleifion ifanc, mae adrannau argyfwng yn cael cyfle pwysig i ddarparu ymyriadau atal anafiadau ar adeg addas ar gyfer addysgu. O ymagweddu'n feddylgar a gweithio ar y cyd, mae adrannau argyfwng yn lleoliad ardderchog ar gyfer hybu atal anafiadau ymhlith cleifion a theuluoedd.

Atal marwolaethau plant yn sgîl anafiadau anfwriadol: Blaenoriaethu'r ymateb i Gerdyn Adrodd Seland Newydd ar Anafiadau i Blant a Phobl Ifanc
Bu'r astudiaeth hon yn datblygu argymhellion ar gyfer atal anafiadau anfwriadol i blant drwy gymharu polisïau Seland Newydd ar atal anafiadau plant a marwolaethau yn sgîl anafiadau anfwriadol â rhai gwledydd yn Ewrop.

Marwoldeb plant yn yr Iseldiroedd yn ystod y degawdau diwethaf: Trosolwg o achosion allanol a rôl polisi iechyd cyhoeddus
Ymhlith gwledydd Ewrop, yn yr Iseldiroedd y ceir y gyfradd marwoldeb plant ail isaf yn sgîl achosion allanol. Mae'r papur hwn yn cyflwyno trosolwg, yn trafod esboniadau posibl, ac yn awgrymu mesurau ataliol.

Perygl anafiadau anfwriadol angheuol i blant yn ôl eu statws mudo: Astudiaeth o garfan ar draws y wlad, gyda chyfnod dilynol o 46 blynedd
Nod yr ymchwil hon oedd astudio effaith gwlad enedigol rhieni ar y risg o ran anafiadau anfwriadol angheuol. Cafwyd bod risg sylweddol uwch o anafiadau anfwriadol angheuol ymhlith plant o gefndir tramor nag ymhlith plant brodorol.

Peryglon tagu ar fwyd ymhlith plant
Mae'r papur hwn yn adolygu'r llenyddiaeth ar beryglon pediatrig tagu ar fwyd, gyda'r nod hir dymor o gefnogi deddfwriaeth sy'n rheoleiddio cynhyrchu, labelu a dosbarthu bwydydd risg uchel.

Gwerthusiad economaidd o ddulliau dosbarthu larymau mwg yn Baltimore, Maryland
Mae'r papur hwn yn dadansoddi costau a'r bywydau a achubwyd o bosibl yn sgîl rhaglen dosbarthu larymau mwg o ddrws i ddrws gan ddefnyddio data o raglen a gynhaliwyd gan Adran Tân Dinas Baltimore yn 2010-2011.

Epidemioleg mân anafiadau pediatrig i'r pen: Cymharu nodweddion anafiadau â Mynegeion Amddifadedd Lluosog
Bu'r astudiaeth hon yn edrych ar nifer yr achosion o fân anafiadau i'r pen a welwyd yn Adran Argyfwng Plant ysbyty addysgu fawr yn Coventry a Swydd Warwick. Cymharwyd yr achosion o anafiadau i'r pen a welwyd yno â data poblogaeth, er mwyn canfod patrymau anafiadau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd.

Thank you,

Diolch,

Karen McFarlane

Development Officer: Child Safety
Swyddog Datblygu: Diogelwch Plant

If you would like to join the CHAPPIE network, please **click here.**

Os hoffech ymuno â'r Rhwydwaith CHAPPIE, **cliciwch yma**.

Forward email

SafeUnsubscribe

Trusted Email from Constant Contact FREE
Try it FREE today.

This email was sent to info@childreninwales.org.uk by info@childreninwales.org.uk | Update Profile/Email Address | Instant removal with SafeUnsubscribe™ | Privacy Policy.
Children in Wales | 25 Windsor place | Cardiff | CF10 3BZ | null